

dti

**CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR
WYBODAETH I GYD-FYND Â
HYSBYSIADAU O DAN ADRAN
14(1) O DDEDDF YNNI 1976 A
CHEISIADAU O DAN ADRAN 36
O DDEDDF TRYDAN 1989**

ASESIAD EFFAITH REOLIADOL TERFYNOL

**Canllawiau Diwygiedig ar
Wybodaeth i Gyd-fynd â
Hysbysiadau o dan
Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976
a Cheisiadau o dan Adran 36 o
Ddeddf Trydan 1989**

Asesiad Effaith Reoliadol Terfynol

Rhagfyr 2006

Cynnwys

	Tudalen
1. Teitl y cynnig	2
2. Y diben a'r effaith arfaethedig	2
3. Ymgynghori	4
4. Dewisiadau	5
5. Costau a buddion	6
6. Prawf Effaith Ffyrmiau Bach	10
7. Asesu cystadleuaeth	11
8. Gorfodi, sancsiynau a monitro	11
9. Cynllun gweithredu	11
10. Adolygiad ar ôl gweithredu	12
11. Crynodeb ac argymhelliad	12
12. Datganiad a chyhoeddi	12
Atodiad A	13

1. Teitl y cynnig

Canllawiau i ddatblygwyr gorsafoedd pŵer ar yr wybodaeth gefndir sydd i gyd-fynd â hysbysiadau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976 a cheisiadau o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989¹ sy'n hybu defnyddio Gwres a Phŵer Cyfun (CHP).

2. Y diben a'r effaith arfaethedig

(i) Yr amcan

Amcan yr ymarfer yma yw symleiddio a diweddarau'r Canllawiau presennol er mwyn osgoi gosod baich rheoliadol rhy drwm ar ddatblygwyr gorsafoedd pŵer ond parhau hefyd i sicrhau bod CHP yn cael ei ddefnyddio mor helaeth â phosibl lle bo'n economaidd ymarferol. O bersbectif y Llywodraeth a'r rhanddeiliaid ill dau, mae hefyd yn bwysig ailddatgan yr ymrwymiad i CHP, er mwyn dileu unrhyw amwysedd a sicrhau bod y broses mor dryloyw a thrwyadl â phosibl.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn cael rhoi cymeradwyaeth i ddatblygu gorsafoedd cynhyrchu ag allbwn o >50 MWe ar y tir yng Nghymru a Lloegr o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. Gan hynny, bydd y canllawiau hyn yn gymwys yng Nghymru a Lloegr i geisiadau o'r fath.

O ran yr Alban, mae cymeradwyaeth cynllunio o dan Adran 36 o Ddeddf 1989 yn yr Alban wedi'i datganoli i fod o dan reolaeth Gweinidogion yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, cyfrifioldeb Adran Menter, Masnach a Buddsoddi Gogledd Iwerddon yw datblygiadau cynhyrchu trydan. Mae canllawiau tebyg yn gymwys i geisiadau Adran 36 yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Er hynny, mae'n dal yn ofynnol i hysbysiadau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976 gael eu gwneud i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, am fod y swyddogaeth honno'n parhau yn fater a gadwyd yn ôl. Gan hynny, bydd y canllawiau yn gymwys hefyd i hysbysiadau Adran 14.

¹ Canllawiau ar yr Wybodaeth Gefndir sydd i gyd-fynd â Hysbysiadau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976 a Cheisiadau o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989

(ii) Y cefndir

Yn yr adroddiad ar yr Adolygiad Ynni²: *Her Ynni*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006, ymrwymwyd i ddiweddarau'r Canllawiau ar gyfer datblygwyr y gorsafoedd pŵer mwyaf er mwyn eu helpu i ddefnyddio cymaint â phosibl ar CHP pan fo'n ymarferol.

Ymhlith diwygiadau eraill y bwriedir iddyn nhw egluro'r Canllawiau a'u symleiddio, bydd y Canllawiau diwygiedig yn cynnwys mapiau gwres newydd a fydd yn dangos cwsmeriaid lleol posibl ar gyfer gwres o orsafoedd pŵer.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynyddu'r gosodiadau CHP o Ansawdd Dda i 10GWe o leiaf erbyn 2010, gan ganiatáu i wres gwastraff gael ei ddefnyddio'n fwy cynhyrchiol gyda systemau gwresogi ar gyfer diwydiant a masnach, gwasanaethau cyhoeddus a'r gymuned. Mae defnyddio mwy ar CHP o Ansawdd Dda:

- yn gostwng costau tanwydd;
- yn lleihau allyriannau carbon deuocsid;
- yn cynyddu diogelwch y cyflenwadau; ac
- mewn gwresogi cymunedol, mae'n darparu gwres fforddiadwy ac yn cyfrannu at ymladd tlodi tanwydd.

(iii) Y rhesymeg dros ymyrraeth y Llywodraeth

Mae cyhoeddi'r Canllawiau yma yn un o nifer o gamau a gynigiwyd yng nghasgliadau'r Adolygiad Ynni ym mis Gorffennaf 2006. Mae'r mesurau a nodwyd yn yr adroddiad yn helpu i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ateb dwy her hirdymor ym mholisi ynni y DU:

- mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy leihau allyriannau carbon deuocsid; a
- sicrhau ynni cadarn, glân, am brisiau fforddiadwy.

Tasg anodd yw taro'r cydbwysedd gofalus rhwng hybu CHP a chaniatáu i ddatblygwyr gael y rhyddid y gyflwyno'r cynigion datblygu mwyaf cystadleuol mewn marchnad sydd wedi'i rhyddfrydoli. Mae'r Llywodraeth yn sicrhau hyn drwy gyfrwng y ddeddfwriaeth gynllunio bresennol a chymhellion Defra ar gyfer CHP o Ansawdd Dda. Y Canllawiau yma felly yw'r cyfrwng ar gyfer

² <http://www.dti.gov.uk/energy/review/page31955.html>

sicrhau bod CHP yn parhau yn amlwg wrth i gynigion gael eu datblygu. Cafwyd llwyddiannau arwyddocaol yn ddiweddar o ran hybu CHP ac mae'r rhain yn cael eu crybwyll yn y Canllawiau gydag esboniad ar y manteision masnachol i ddatblygwyr. Yn Grain, er enghraifft, achubodd E.ON UK ar y cyfle i ymchwilio i bosibilrwydd rhoi gwres i ddiwydiant cyfagos wrth ystyried eu cais Adran 36 am Dyrbin Nwy Cylched Gyfun (CCGT) 1,200 MWe. Yn sgil yr ymchwil, mae E.ON UK erbyn hyn yn negodi gyda chymydog ynghylch gwneud cytundeb a fyddai'n golygu y byddai'r CCGT newydd yn gymwys fel CHP o Ansawdd Dda.

Mae'r Canllawiau yma yn ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i CHP ac yn helpu'r datblygwr i ymwneud â'r sefydliadau allweddol sy'n ffynonellau gwybodaeth am wres rhanbarthol. Am y tro cyntaf, maen nhw'n rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr am gwsmeriaid gwres rhanbarthol drwy fapiau gwres rhyngweithiol Defra. Mae'r Canllawiau'n cynnwys cyfarwyddiadau cliriach ar yr wybodaeth y mae ei hangen oddi wrth y datblygwyr. Bydd y Canllawiau hefyd yn cynnwys rhestr ddiwygiedig a byrrach o sefydliadau perthnasol y dylai'r datblygwyr gysylltu â nhw, gan gynnwys penaethiaid ynni yr RDAs.

Bydd symleiddio'r Canllawiau a'u diweddarau yn sicrhau bod gan geiswyr a phartion eraill sydd â buddiannau yn hyn o beth ddealltwriaeth gyflawn o'r broses ac o'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddyn nhw ei rhoi mewn perthynas â CHP wrth wneud cais am gydsyniad i godi gorsaf bŵer o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 neu i gyd-fynd â hysbysiad o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976.

3. Ymgynghori

(i) O fewn y Llywodraeth

Mae'r cynigion wedi'u datblygu ar y cyd ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth sydd â buddiannau yn hyn o beth, yn bennaf Defra a DCLG. Mae trafodaethau ar y polisi arfaethedig wedi'u cynnal hefyd â Thrysorlys EM a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

(ii) Ymgynghori â'r Cyhoedd

Cafodd y Canllawiau cyfredol eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2001. Roedd diwygio'r Canllawiau hyn yn ymrwymiad yn y Papur Gwyn ar Ynni yn 2003 ac yn Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Gwres a Phŵer Cyfun hyd at 2010, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2004.

Cafwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ar y Canllawiau arfaethedig yn 2004. Cafodd copïau o'r ddogfen eu cylchredeg i ddatblygwyr, cymdeithasau masnach sydd â buddiant a chyrrff amgylcheddol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi hefyd ar wefan allanol yr Adran. Daeth chwe ymateb ffurfiol i law. Wnaeth yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ddim arwain at set gadarn o gasgliadau ac o ganlyniad i hynny parhaodd y swyddogion i ymwneud â rhanddeiliaid eraill ac adrannau eraill o'r Llywodraeth, gan arwain yn y pen draw at weithdy ym mis Mehefin 2006. Daeth y gweithdy hwnnw i'r casgliad y byddai Canllawiau diwygiedig yn ddefnyddiol os bydden nhw'n symlach, yn gymesur ac yn gyfoes. Hefyd, rhoddodd datblygwyr groeso i'r cysyniad o fapiau gwres newydd Defra, sydd ar gael am y tro cyntaf gyda'r Canllawiau yma.

Cafwyd rhagor o ymgynghori anffurfiol â chymdeithasau diwydiannol a masnachol wrth i'r Canllawiau terfynol gael eu paratoi.

4. Dewisiadau

Ar y sail bod angen y ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn hybu CHP lle bo'n ymarferol, mae yna ddau ddewis yn y bôn, sef:

- (i) cadw'r Canllawiau presennol;
- (ii) symleiddio'r canllawiau a'u diweddarau.

Cafodd rhagor o ddewisiadau eu trafod mewn gweithdy i'r rhanddeiliaid ym mis Mehefin 2006, gan gynnwys tynnu'r ddeddfwriaeth yn ôl a rhoi cod ymarfer yn ei lle neu wneud y gofynion yn drymach. Er hynny, barnwyd bod y dewisiadau hyn yn amhriodol ar hyn o bryd am y gallai llacio'r gofynion ar y datblygwyr arwain at ddadansoddi economaidd llai trylwyr ar y potensial ar gyfer CHP, y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n gryf iddo. Yn yr un modd, byddai gofynion trymach yn gosod baich diangen ar ddatblygwyr sy'n gyfrifol am ddod o hyd i safleoedd ac am ymarferoldeb economaidd ar sail anghenion y farchnad.

Disgrifiad o'r dewisiadau

- (i) Byddai'r status quo yn golygu parhau i ddibynnu ar ganllawiau a gafodd eu cynhyrchu ym mis Mawrth 2001 ac sy'n cynnwys hen wybodaeth gysylltu ac nad ydyn nhw'n manteisio ar y mapiau gwres ar-lein diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi gan Defra³.

³ <http://www.industrialheatmap.com>

- (iii) Diweddarau'r Canllawiau a'u symleiddio a chyfeirio at y mapiau gwres newydd a fyddai'n ei gwneud yn haws i ddatblygwyr ddod o hyd i gyfleoedd CHP sy'n ymarferol o safbwynt economaidd, gan gymryd y manteision amgylcheddol a chymdeithasol posibl i ystyriaeth.

5. Costau a buddion

(i) Y sectorau busnes yr effeithir arnyn nhw

Mae'r Canllawiau arfaethedig yn gymwys i ddatblygwyr gorsafoedd pŵer ar y tir sy'n gwneud cais am gydsyniad datblygu o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 ac i hysbysiadau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976.

Fel arfer, bydd gan ddatblygwyr gorsafoedd pŵer mawr a'r rhai sy'n paratoi hysbysiadau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976 dimau penodedig i weithio ar ddichonoldeb economaidd datblygiad gorsaf bŵer newydd. Yn ystod y broses o ddatblygu gorsaf bŵer, mae'n arferol i ystyriaeth gael ei rhoi i CHP, o ganlyniad i arwyddion cryf ar y pwynt gan y Llywodraeth, ac weithiau am fod y datblygwyr yn dymuno datblygu gorsafoedd pŵer CHP am resymau economaidd neu am resymau eraill. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod bod y gorsafoedd pŵer mwyaf yn cael eu dylunio fel arfer ar sail eu hallbwn trydan, mae yna gyfleoedd i ddefnyddio gwres mewn ffyrdd gwahanol a, gan fod y Llywodraeth am hybu CHP lle bo'n ddichonol, mae'r Canllawiau wedi'u hanelu at sicrhau mai dyna sy'n digwydd. Cytunodd y datblygwyr gorsafoedd pŵer hynny yr ymgynghorwyd â nhw wrth ddatblygu'r RIA yma y bydden nhw'n cynnig gorsaf bŵer CHP lle byddai hynny'n ddichonol os byddai'n hyfyw o'r safbwynt economaidd, ond bod y penderfyniad yn dibynnu ar nifer o ffactorau holl-bwysig, fel y rhagolygon yn y tymor hir ar gyfer prisiau nwy a thrydan.

Mae paratoi cais am gydsyniad i godi gorsaf bŵer yn amrywio'n fawr, yn ôl maint a math y cynnig. Mae'r wybodaeth angenrheidiol yn ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag effaith yr orsaf bŵer ar yr amgylchedd. Mae'r gofyniad bod rhaid ystyried CHP yn un o nifer o elfennau sydd i'w hystyried wrth baratoi cais neu hysbysiad. Nid yw cyfanswm cost paratoi hysbysiad o dan Adran 14(1) o Ddeddf Ynni 1976 neu gais o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 wedi'i fesur.

Bydd tîm rheoli cydsyniadau'r DTI yn edrych ar bob cais neu hysbysiad ar sail ei ragoriaethau, a hynny er mwyn caniatáu

hyblygrwydd i'r datblygwyr yn y modelu economaidd ac nid creu beichiau diangen os yw'n amlwg nad yw CHP yn ddichonol. Mae'r datblygwyr hynny yr ymgynghorwyd â nhw yn cytuno ei bod yn well ganddyn nhw'r ymagwedd yma na chynhyrchu tystiolaeth ar ffurf templed gosod.

(ii) Buddion

Dewis (i): Fyddai cadw'r Canllawiau presennol ddim yn creu dim buddion newydd i'r datblygwyr gan mai dyma'r status quo.

Dewis (ii): Byddai diweddarau'r Canllawiau yn lleihau'r baich gweinyddol ar y datblygwyr ym mhob cais. Bydd diweddarau'r Canllawiau yn sicrhau:

- bod cwsmeriaid gwres posibl yn haws i'w hadnabod ar sail mapiau gwres Defra, gan arbed amser i'r datblygwyr wrth ddod o hyd i gwsmeriaid eu hunain;
- y bydd y ffynonellau gwybodaeth allweddol ar wres rhanbarthol yn cael eu hadnabod yn gynt, gan arbed amser i'r datblygwyr;
- bod datblygwyr gorsafoedd pŵer yn gallu cael eu cyfeirio'n fwy eglur at elfennau penodol yn y Canllawiau y bydd rheolwyr cydsyniadau'r DTI yn chwilio amdanyn nhw mewn cais neu hysbysiad;
- y bydd amser yn cael ei arbed drwy beidio â ffonio cysylltiadau sydd wedi mynd yn hen; a
- gostyngiad yn nifer y cysylltiadau o fwy na deg i restr syml o bedwar o gysylltiadau i bob cais.

Amcangyfrifir bod y gostyngiad mewn oriau gwaith i ateb argymhellion y Canllawiau diwygiedig, wedi'i gyfrifo ar sail arbed rhyw wythnos neu ddwy yn dod o hyd i gwsmeriaid gwres a 2-15 awr o amser ffonio, rhwng £2,000 a £5,000 am bob cais. Yn ôl data'r Ystadegau Gwladol, roedd tâl gros cyfartalog gweithwyr amser llawn yn niwydiant "cynhyrchu a dosbarthu trydan" y DU yn £16.3 yr awr yn 2006. Mae'n safonol lluosu'r ffigur yma ag 1.3 er mwyn adlewyrchu costau llafur heblaw cyflogau, sy'n rhoi £21.2 yr awr. Mae'r cyfanswm yn cael ei luosi wedyn ag oriau gwaith (sef lluosu'r arbediad am bob awr â nifer y ffyrmiau) yn ôl £21.2 yr awr er mwyn creu amcangyfrif i'r diwydiant cyfan.

Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o nifer y gorsafoedd Tyrbin Nwy Cylched Gyfun (CCGT) confensiynol a nifer y gorsafoedd CHP y gwnaed cais ar eu cyfer dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'n ddefnyddiol nodi bod y Llywodraeth, o ganlyniad i gasgliadau'r Adolygiad o Ffynonellau Ynni ar gyfer cynhyrchu pŵer, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 1998, wedi sefydlu polisi tynnach ar gyfer cydsyniadau i orsafoedd pŵer, lle byddai ceisiadau am gynhyrchu newydd â nwy naturiol yn cael ei drin fel pe bai'n groes i amcanion polisi ynni y DTI o gadernid ac amrywiaeth, ac yn cael eu gwrthod fel rheol. Cododd y Llywodraeth y polisi tynnach ar gydsyniadau ar 15 Tachwedd 2000 pan ddangosodd Cynlluniau ar gyfer y Trefniadau Masnachu Trydan Newydd, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2001, fod y pryderon ynghylch cystadlu yn adolygiad 1998 wedi cael sylw digonol.

Mae nifer y ceisiadau am orsafoedd pŵer yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, ond ar gyfartaledd ceir pedwar y flwyddyn. Ar y sail honno, gellir amcangyfrif y byddai buddion cyhoeddi'r Canllawiau yma rhwng rhyw £8,000 ac £20,000 y flwyddyn.

Blwyddyn	Nifer y ceisiadau	Math o gynhyrchu – e.e. CCGT neu CHP	Nodiadau
2006	3	3x CCGT	Heb gael cydsyniad eto
2005	8	6x CCGT	2 wedi cael cydsyniad, 4 yn cael eu hystyried
		2x CHP	1 wedi cael cydsyniad, 1 wedi'i dynnu'n ôl
2004	2	2x CCGT	1 wedi cael cydsyniad, 1 wedi'i dynnu'n ôl
2003	0	–	–
2002	1	1x CHP	1 wedi cael cydsyniad
2001	2	1x CCGT	1 wedi cael cydsyniad
		1x CHP	1 wedi cael cydsyniad
2000	7	1x CCGT	1 wedi'i dynnu'n ôl
		5x CHP	4 wedi cael cydsyniad, 1 wedi'i dynnu'n ôl
		1x tanio deuol	1 wedi cael cydsyniad

Mae buddion ail-gyhoeddi'r Canllawiau yma wedi'u cyfrifo ar sail buddion economaidd eu symleiddio. Er mai symleiddio a diweddarau'r Canllawiau yw prif ddiben eu hailgyhoeddi, mae CHP yn gallu dod â buddion economaidd sylweddol, sef buddion y bwriedir i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Canllawiau eu cynyddu. Mae'r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pendant sydd i'w cael o ddefnyddio CHP wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

Crynodeb o'r buddion

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effeithiau posibl y ddau ddewis

	Dewis (i) – Cadw'r Canllawiau presennol	Dewis (ii) – Diweddaru'r canllawiau a'u symleiddio
Economaidd	Yn parhau â'r gyfundrefn bresennol lle mae'r wybodaeth wedi mynd yn hen ac yn achosi beichiau gweinyddol sydd wedi'u cyfrif rhwng £2,000 a £5,000 am bob cais.	Buddion gweinyddol o rhwng £2,000 a £5,000 am bob cais wedi'u seilio ar symleiddio a diweddaru'r wybodaeth a dod o hyd i gwsmeriaid gwres posibl yn gynt.
Cymdeithasol	–	Gan mai symleiddio a diweddaru'r Canllawiau presennol yw bwriad y Canllawiau yma, nid yw'r effeithiau cymdeithasol wedi'u mesur. Gweler Atodiad A i gael dadansoddiad ar fuddion CHP.
Amgylcheddol	–	Gan mai symleiddio a diweddaru'r Canllawiau presennol yw bwriad y Canllawiau yma, nid yw'r effeithiau amgylcheddol wedi'u mesur. Gweler Atodiad A i gael dadansoddiad ar fuddion CHP.

(iii) Costau

Costau cydymffurfio

Dewis (i): O dan y gyfundrefn gyfredol, nid yw'r datblygwyr yn cael manteisio ar fapiau gwres newydd Defra, ac felly mae angen iddyn nhw ddefnyddio amser staff neu ymgynghorwyr arbenigol i ddod o hyd i gwsmeriaid gwres. Yn dibynnu ar faint a manyleb y datblygiad, gall yr amser a gymerir i ddod o hyd i lwythi gwres amrywio o ryw wythnos i bythefnos. Mae cysylltu â'r hen sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn y Canllawiau cyfredol yn gwastraffu amser y datblygwyr ac amcangyfrifir bod hyn yn defnyddio rhwng 2 a 15 awr o amser datblygwyr am bob cais. Amcangyfrifir felly fod yna gostau posibl ynglŷn â chadw'r Canllawiau presennol o rhwng £2,000 a £5,000 am bob datblygiad.

Dewis (ii): Bydd diweddarau'r Canllawiau yn lleihau'r baich ar y datblygwyr am bob cais; nid ydym yn credu y bydd yn ychwanegu dim rhagor o gostau cydymffurfio i'r datblygwyr.

Costau eraill

Mae'r Canllawiau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwyr gyflwyno gwybodaeth i gyd-fynd â'u hysbysiad neu eu cais. Bernir bod angen y baich yma er mwyn dangos bod CHP wedi'i ystyried yn llawn. Bydd y diwygiad arfaethedig yn newid yn arwyddocaol ar yr amser a gymerir i'r datblygwyr baratoi'r wybodaeth am y bydd modd iddyn nhw ddod o hyd i gwsmeriaid gwres ar sail mapiau gwres Defra. Am yr un rheswm, bydd y dadansoddiad economaidd y gofynnir iddyn nhw ei baratoi yn haws i'w bwysu a'i fesur. Mae'r Canllawiau yn gliriach ac yn gyfoes, sy'n lleihau ansicrwydd.

Nid ydym wedi nodi'r costau neu'r baich i unrhyw sefydliad arall. Mae'r cysylltiadau sydd wedi'u henwi yn y Canllawiau yn fodlon derbyn cyfrifoldeb ychwanegol rhannu gwybodaeth oherwydd y buddion sydd i'w cael o gael eu cynnwys yn gynnar mewn projectau seilwaith rhanbarthol allweddol. Nid ydym wedi nodi costau na beichiau ar unrhyw adran arall o'r Llywodraeth nac awdurdodau lleol o dan gytundeb Trysorlys EM ar Feichiau Newydd.

6. Prawf Effaith Ffyrniau Bach

Yn ein barn ni, nid yw'n debyg y bydd cost cydymffurfio â'r rheoliadau arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar ffyrniau bach yn y diwydiant cynhyrchu pŵer. Ar hyn o bryd, ychydig iawn

o ffyrmiau bach a chanolig (hynny yw, mentrau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl yn amser llawn) sydd wrthi'n datblygu cynigion yn y sector ynni o'r maint sy'n cael eu trafod yn y Canllawiau yma, a llai byth sy'n mynd yn eu blaen wedyn i adeiladau projectau, os oes unrhyw un o gwbl.

7. Asesu cystadleuaeth

At ddibenion yr asesiad cystadleuaeth, mae'r farchnad yn cynnwys cwmnïau sy'n gysylltiedig ag ynni ac sy'n awyddus i adeiladu a gweithredu gorsafoedd pŵer ar y tir. Mae marchnad cynhyrchu trydan y DU yn un gystadleuol ac mae'n cynnwys cystadleuwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Mae gan y farchnad y fantais o fesur helaeth o ryddfrydoli o'i chymharu â marchnadoedd ynni eraill yr UE. Mae'r farchnad cyflenwi nwy hithau yn gystadleuol hefyd. Nid yw'r Canllawiau yma a'r rheoliadau y maen nhw wedi'u seilio arnyn nhw yn amharu ar gystadleurwydd y cystadleuwyr unigol nac ar gystadleurwydd y farchnad yn ei chyfanrwydd.

8. Gorfodi, sancsiynau a monitro

Bydd tîm adolygu cydsyniadau datblygu trydan y DTI yn adolygu pob cais neu hysbysiad ar sail ei ragoriaethau ac mae'r tîm yn barod i gynghori datblygwyr ar eu gweithdrefnau. Os nad yw'r DTI yn credu bod datblygwyr wedi gwneud digon o astudiaethau dichonoldeb a dadansoddiadau economaidd, gall yr Adran ofyn i'r datblygwr wneud rhagor o waith i ddod o hyd i gleientau gwres.

9. Cynllun gweithredu

Caiff y Canllawiau eu cyhoeddi drwy wefan y DTI a'u cyfleu hefyd i ddatblygwyr gorsafoedd pŵer drwy lythyr agored at ddatblygwyr gorsafoedd pŵer a thrwy gysylltiadau unigol â'r diwydiant. Cynigir seminarau i'r cymdeithasau masnach allweddol sy'n ymwneud â chynhyrchu trydan ar y Canllawiau newydd os dymunan nhw eu cael.

Caiff ceisiadau am gydsyniad eu monitro er mwyn cadw llygad ar effaith y Canllawiau newydd.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

Ymrwymodd yr Adolygiad Ynni i gyflwyno newid sylfaenol yn y system gynllunio ar gyfer projectau seilwaith ynni mawr a bydd cynigion yr Adran yn cael eu nodi mewn Papur Gwyn yn 2007. Bydd yr Adran yn achub ar y cyfle a geir yn y cynigion yn y Papur Gwyn i gadw llygad ar sut mae'r gofynion ynglŷn â gwybodaeth ar gyfer CHP yn gweithio.

11. Crynodeb ac argymhelliad

Yr amcan sydd gennym yw cyhoeddi canllawiau a fydd yn sefydlu proses glir, agored a thryloyw ar gyfer gwneud cais er mwyn hybu datblygiadau CHP mewn buddsoddiadau mawr mewn gorsafoedd pŵer.

Yn ein barn ni, mae Dewis (i), sef 'gwneud dim' yn annerbyniol, gan y byddai'r adran yn methu â diweddarau'r Canllawiau, sydd wedi mynd yn hen ac nad ydyn nhw'n gwneud y defnydd gorau posibl ar fapiau gwres modern. Dewis (ii), sef diweddarau'r Canllawiau, yw'r dewis gorau gan y bydd hynny yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r datblygwyr, gan gyfrannu at dargedau ynni allweddol y Llywodraeth a lleihau baich cyffredinol y rheoliadau ar y datblygwyr. Rydym yn credu bod y dadansoddiad cost/budd uchod yn dangos mai dyma'r dewis gorau i wireddu'n hamcanion.

12. Datganiad a chyhoeddi

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith Reoliadol ac rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.



Llofnodwyd gan y gweinidog cyfrifol: Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol dros Ynni, Yr Arglwydd Truscott.

Dyddiad 15-12-2006

Cefndir manteision CHP

Mae CHP yn dechnoleg sy'n effeithlon iawn o safbwynt ynni, ac mae'n defnyddio'r gwres gwastraff a gynhyrchir fel un o sgil-gynhyrchion y broses o greu trydan. Mae effeithlonrwydd ynni cyffredinol CHP tua 70-90% o allbwn y tanwydd – sy'n llawer gwell na gorsafoedd pŵer confensiynol, sydd â hyd at ryw 40-50% o effeithlonrwydd yn unig. Mae'n caniatáu i amrywiaeth mawr o ddefnyddwyr ynni, o ddiwydiant trwm i lawr i gartrefi unigol, arbed arian a lleihau eu hallyriannau carbon cyffredinol.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno amrediad o fesurau i gefnogi CHP, gan gynnwys:

- esemptiad rhag y doll newid hinsawdd ar y tanwydd a roddir i mewn o CHP o Ansawdd Dda ac ar yr holl drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan CHP o Ansawdd Dda;
- gwell cymhwyster i gael Lwfansau Cyfalaf er mwyn symbylu buddsoddiadau;
- dyraniad manteisiol o lwfans carbon o dan Gynllun Masnachu Allyriannau (ETS) yr UE.

I gydnabod manteision amgylcheddol CHP, yn 2000 gosododd y Llywodraeth darged o sicrhau o leiaf 10 gigawat (GW) o allu i gynhyrchu CHP o Ansawdd Dda erbyn 2010. Ar ddiwedd 2004, roedd y gallu i gynhyrchu 5.6 GW wedi'i osod yn y DU, yr amcangyfrifir ei fod yn arbed tua 4.5 MtC y flwyddyn. I bob pwrpas, mae'r CHP presennol yn sicrhau arbedion carbon o ryw hanner miliwn i filiwn o dunelli y flwyddyn am bob GWe o allu cynhyrchu, yn dibynnu ar y dull asesu.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r diwydiant CHP wedi wynebu amodau economaidd anffafriol, yn bennaf yn sgil y gwahaniaeth rhwng y pris sydd wedi'i dderbyn am drydan a chost cynhyrchu'r trydan – sef gwahaniaeth nad yw wedi bod yn ddigon i roi elw digonol ar y buddsoddiadau. Mae'r anghysondeb rhwng prisiau nwy a thrydan yn y blynyddoedd diwethaf wedi mynd yn erbyn CHP, sy'n golygu bod yna le o hyd i roi cymorth i CHP yn amodau'r farchnad bresennol. Gan hynny, mae'r Llywodraeth yn awyddus i weld bod CHP yn cael ei gefnogi'n llawn lle bynnag y bo modd o fewn proses genedlaethol a rhanbarthol y polisi cynllunio.

